YSTADEGAU SWYDDOGOL

Trefniadau mynediad ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2018/19

Uchafbwyntiau

14 Tachwedd 2019

Ffigur 1: Nifer y trefniadau cymeradwy



Ffynhonnell: O 2017-18 CGC; 2013-14 i 2016-17 - Ofqual

Cymeradwywyd 21,475 o drefniadau mynediad yn 2018/19, sef 2.7% yn fwy na 2017/18.

Roedd gan 91.3% o ganolfannau o leiaf un trefniant mynediad cymeradwy.

Ffigur 2: Math o drefniadau cymeradwy



Ffynhonnell: CGC

25% o amser ychwanegol yw'r math mwyaf cyffredin o drefniant o hyd, sy'n cyfrif am 66.8% o'r holl drefniadau cymeradwy yn 2018/19, o gymharu â 64.8% yn 2017/18.

Ffigur 3: Nifer y papurau wedi'u haddasu

Cynhyrchwyd 6,155 o bapurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2019, sef 23.6% yn fwy na haf 2018.



Ffynhonnell: O 2018 – Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybod am nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd ar gyfer TGAU, Safon Uwch ac UG yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Mae'r datganiad ystadegol hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bapurau a addaswyd.

Cynnwys

Cyflwyniad.....2
Ystadegau.....3
Rhestr termau.....7
Nodiadau Cefndir.....9

Ystadegydd: Mark Hogan Cstat 01633 373 253 ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau'r cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. Yn y datganiad hwn, cyflwynwn ddata am nifer y trefniadau mynediad cymeradwy (blwyddyn academaidd 2018/19) a nifer y ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu (cyfres haf 2019) ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru.

O flwyddyn academaidd 2017/18, rydym wedi casglu ac adrodd am ddata yng Nghymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cafodd data cyn 2017/18 ei gasglu a'i gyhoeddi gan Ofqual.

TREFNIADAU MYNEDIAD

Trefniadau mynediad yw'r darpariaethau a wneir i fyfyrwyr, y cytunir arnynt cyn iddynt gael asesiad, i sicrhau y cânt eu hasesu'n ddilys ac nad ydynt o dan anfantais annheg oherwydd anabledd, salwch/anaf dros dro neu os nad Cymraeg neu Saesneg mo'u hiaith gyntaf. Ni ddylid drysu rhwng y rhain ac ystyriaeth arbennig, sef addasiadau ôl-arholiad i farciau myfyrwyr na fuont yn gallu arddangos eu gallu mewn asesiad oherwydd amgylchiadau eithriadol fel profedigaeth adeg yr asesiad.

Gall unrhyw fyfyrwyr sy'n cael asesiadau TGAU, Safon UG neu Safon Uwch sy'n bodloni meini prawf cymhwyster y corff dyfarnu gael trefniant mynediad. Efallai bydd gofyn mwy nag un math o drefniant mynediad ar fyfyrwyr unigol. Yn ôl canllawiau'r Cydgyngor Cymwysterau (CGC), ar ôl ei ganiatáu, bydd trefniant yn gymwys am hyd at 26 mis, ond bydd ceisiadau sy'n seiliedig ar gyflyrau dros dro yn para un gyfres arholiadau yn unig. Felly, bydd rhai trefniadau a gymeradwywyd cyn blwyddyn academaidd 2018/19 yn weithredol o hyd ond ni fyddant yn cyfrannu at y ffigurau a gyflwynir yn y datganiad hwn. Dim ond unwaith y bydd trefniadau sy'n ymdrin â mwy nag un gyfres arholiadau yn cael eu cyfrif. Rhaid i unrhyw drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer 25% o amser ychwanegol, darllenyddion cyfrifiadur neu ysgrifenyddion mewn TGAU gael eu hailgyflwyno pan fydd y myfyriwr yn sefyll Safon UG neu Safon Uwch. Ymddengys yr ailgyflwyniadau hyn yn y data fel ceisiadau newydd am drefniadau mynediad.

Yn wahanol i drefniadau mynediad, gwneir ceisiadau am bapur wedi'i addasu ar gyfer pob papur arholiad unigol. Efallai bydd ymgeisydd unigol yn gofyn am nifer o bapurau wedi'u haddasu mewn un gyfres arholiadau. Oherwydd gwahaniaethau o ran casglu data, cyflwynir ffigurau ar gyfer papurau wedi'u haddasu ar wahân i fathau eraill o drefniant mynediad.

YSTADEGAU

TREFNIADAU MYNEDIAD

BETH YW'R TREFNIADAU MYNEDIAD MWYAF CYFFREDIN A GYMERADWYIR?

Tabl 1: Nifer a chyfran pob math o drefniant cymeradwy ar gyfer blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19

	Nifer			Canran y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau	
Trefniant mynediad	**2017/18**	**2018/19**	**% newid**	**2017/18**	**2018/19**
25% o amser ychwanegol	13,540	14,340	5.9%	12.9%	13.8%
Darllenydd cyfrifiadur / Darllenydd	5,140	5,105	-0.6%	4.9%	4.9%
Arholiad ar bapur lliw	330	*	-99.7%	0.3%	0.0%
Amser ychwanegol > 25%	165	180	9.0%	0.2%	0.2%
Arall	295	345	16.9%	n/a	n/a
Ysgrifennydd	1,430	1,505	5.1%	1.4%	1.4%
Cyfanswm	**20,905**	**21,475**	**2.7%**	**n/a**	**n/a**

Ffynhonnell: JCQ

Sylwer: Mae 'Arall' a 'Cyfanswm' yn cynnwys mathau niferus o drefniant, gan olygu y gall myfyriwr fod yn cael mwy nag un. Dim ond pan roir un trefniant mynediad fesul myfyriwr y gellir cyfrifo 'Canran o ymgeiswyr yn sefyll arholiadau'. sy'n sefyll arholiadau' pan roddir un trefniant mynediad fesul myfyriwr.

Ffigur 4: Nifer y trefniadau cymeradwy ar gyfer y tri math mwyaf cyffredin o drefniant cymeradwy, 2013/14 i 2018/19



Ffynhonnell: 2017-18 ymlaen CGC; 2013-14 i 2016-17 – Ofqual

25% o amser ychwanegol yw'r prif gategori trefniant mynediad o hyd, sy'n cynyddu fel cyfran o'r trefniadau mynediad cymeradwy cyffredinol o 64.8% i 66.8% yn 2018/19.

Arholiad ar bapur lliw oedd wedi gostwng fwyaf, i lawr 99.7% yn 2018/19. Mae'n debygol yr eglurir hyn gan y CGC yn argymell bod ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll arholiad ar bapur lliw yn gofyn am fath o bapur wedi'i addasu (papur cwestiwn nad yw'n rhyngweithiol) yn hytrach.

Roedd gan 305 o ganolfannau (91.3% o'r holl ganolfannau) drefniadau mynediad cymeradwy i un neu ragor o'u myfyrwyr yn 2018/19, o gymharu â 93.6% yn 2017/18.

PAPURAU WEDI'U HADDASU

A YDY CEISIADAU AM BAPURAU WEDI'U HADDASU YN CYNYDDU DROS AMSER?

Gwneir ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu gan ganolfannau cyn cyfres arholiadau benodol. Paratoir papurau wedi'u haddasu i fyfyrwyr sydd, er enghraifft, ag amrywiaeth o namau ar eu golwg ac anhwylderau deall iaith sylweddol er mwyn eu helpu i arddangos eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Ffigur 5: Nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yng Nghymru, cyfres haf 2014 i 2019



Ffynhonnell: O 2018 – Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Cynyddodd nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yng Nghymru 23.6% i 6,155 yn haf 2019 (ffigur 5).

Mae'r cynnydd yn 2018 yn bennaf oherwydd ceisiadau am iaith wedi'i haddasu ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth newydd, sy'n gofyn bod ymgeiswyr yn sefyll nifer fawr o asesiadau.

Mae nifer y papurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2019 yn cyfrif am gyfran fechan iawn (tua 3 mewn 500) o hyd o'r 1,014,160 o bapurau a farciwyd am arholiadau TGAU, Safon UG ac Uwch yng Nghymru (ffigur 6). Mae hyn er gwaethaf nifer cynyddol y papurau wedi'u haddasu yn 2019 yn gwthio'r ganran i 0.6%.

Ffigur 6: Papurau wedi'u haddasu yn ganran o gyfanswm y papurau, cyfres haf 2014 i 2019



Ffynhonnell: O 2018 Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

BETH YW'R CEISIADAU MWYAF CYFFREDIN AM BAPURAU WEDI'U HADDASU?

Ffigur 7: Cyfran o bob math o bapur wedi'i addasu yn 2018 a 2019



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Tabl 2: Nifer pob math o bapur wedi'i addasu yn 2018 a 2019

Trefniant mynediad	2017/18	2018/19	% newid
Papurau testun trwm maint 18	1,220	1,875	53.8%
Papurau testun trwm maint 24	1,775	1,590	-10.3%
Iaith wedi'I haddasu	1,340	1,425	6.3%
Papurau cwestiwn electronig di-ryngweithiol	270	720	164.3%
Fformatau eraill	375	550	46.5%
Cyfanswm	**4,980**	**6,155**	**23.6%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Sylwer: Mae 'gweddill y fformatau' yn cynnwys papurau wedi'u haddasu a ddefnyddir yn llai aml, fel trawsgrifiadau o fideo/prawf gwrando a phapurau Braille.

Ffigur 8: Nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yn ôl math o bapur wedi'i addasu, cyfres haf 2014 i 2019



Ffynhonnell: O 2018 Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Roedd cynnydd mawr arall yn nifer y papurau cwestiwn electronig nad ydynt yn rhyngweithiol, i fyny 53.8% i 1,875 yn 2019, sy'n berthynol i newid yn y cyngor y mae'r CGC yn ei roi i ganolfannau yn ei arweiniad.Cynyddodd niferoedd pob math o bapurau wedi'u haddasu, ar wahân i iaith wedi'i haddasu. Cynyddodd niferoedd y papurau testun trwm pwynt 18 am y pumed flwyddyn yn olynol, i fyny i 1,425 yn haf 2019.

RHESTR TERMAU

Corff Dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn pennu ac yn monitro asesiadau ac yn cyhoeddi dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod yn ffurfiol y canlyniadau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

TGAU

Mae Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwch ar gael mewn ystod eang o bynciau. TGAU yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 i bobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru.
Gellir eu defnyddio'n sail i hyfforddiant neu astudio lefel uwch, neu'n fodd uniongyrchol i mewn i gyflogaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch neu 'Lefel A'. Cymwysterau a gymerir, ar ôl TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau, a hynny fel arfer gan bobl ifanc 16-18 oed ac sy'n nodweddiadol yn ddwy flynedd o gwrs astudio. Fe'u defnyddir yn sail i dderbyniadau i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu'n fodd o gael cyflogaeth.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf o gymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd yn gymhwyster ar ei ben ei hun. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at gymwysterau Safon Uwch.

Canolfan

Corff sy'n ymgymryd â chyflenwi asesiad (ac efallai gweithgareddau eraill) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Yn nodweddiadol, canolfannau yw sefydliadau addysgol, darparwyr hyfforddiant, neu gyflogwyr.

Trefniant mynediad

Trefniadau a gymeradwyir cyn arholiad neu asesiad er mwyn i sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu harddangos gan ymgeiswyr ag anabledd neu anhawster dysgu parhaol neu hirdymor, neu anaf, salwch, anhwyldeb neu gyflwr meddygol dros dro,

neu angen addysgol arbennig, gan gynnwys lle nad Cymraeg, Saesneg na Gwyddeleg mo iaith gyntaf yr ymgeisydd.

Papur wedi'i addasu

Gwneir ceisiadau cyn cyfres benodol o arholiadau am bapurau cwestiwn wedi'u haddasu, a hwythau'n cael eu paratoi'n unigol i ymgeiswyr y mae trefniadau mynediad eraill yn anaddas iddynt. Mae papurau cwestiwn wedi'u haddasu yn galluogi ymgeiswyr ag amrywiaeth o namau ar eu golwg neu anhwylderau deall iaith sylweddol i arddangos eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Addasiadau rhesymol

Addasiadau a wneir i arholiad neu asesiad er mwyn galluogi ymgeiswyr ag anableddau i arddangos eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i sicrhau na fydd yr anabledd yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag ymgeisydd nad yw'n anabl. Gallai addasiad rhesymol i unigolyn penodol fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw ac efallai na fydd wedi'i gynnwys yn y rhestr o Drefniadau Mynediad sydd ar gael[1], gan olygu efallai na fydd yn cael ei gynnwys yn y data hwn.

[1] http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017[2] a oedd yn enwi Cymwysterau Cymru ymhlith y cyrff sydd yng nghwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaethau Cofrestru 2007[3]. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiad â Chod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol Awdurdod Ystadegau'r DU[4] ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn yn Ystadegau Swyddogol.

Am drefniadau mynediad

Caiff y cymwysterau dan sylw yn y datganiad hwn eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Nodir y gofynion y mae'n rhaid i'r cyrff dyfarnu eu bodloni yn yr Amodau Cydnabod Safonol[5].

Mae'r amodau hyn yn nodi bod "Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cyfraith Cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r cymwysterau a ddarperir ganddo." Mae'r datganiad hwn yn cyhoeddi data am addasiadau rhesymol sy'n cael eu gwneud i ymgeiswyr sy'n anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ôl y Cydgyngor Cymwysterau (CGC), sef sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys y saith darparwr cymwysterau mwyaf yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n dyfarnu TGAU a Safon Uwch, trefniadau mynediad yw addasiadau cyn-arholiad i ymgeiswyr yn seiliedig ar dystiolaeth o angen a ffordd arferol o weithio[6].

Efallai bydd gofyn trefniadau mynediad ar ymgeiswyr am nifer o resymau, gan gynnwys anabledd, cyflwr meddygol neu salwch, neu os nad Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg mo'u hiaith gyntaf.

Dylai canolfannau ystyried gofynion penodol ymgeiswyr unigol ac yna dilyn canllawiau a threfniadau'r cyrff dyfarnu. Bydd y dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais yn amrywio, gan ddibynnu ar y rhesymau dros y gofyniad penodol a'r mathau o drefniant y gofynnwyd amdanynt. Os gwneir cais i ymgeisydd gael 25% o amser ychwanegol oherwydd anhawster dysgu, mae'r CGC yn mynnu cael tystiolaeth o effaith anhawster yr ymgeisydd gan ddefnyddio profion safonedig o'i gyflymder darllen, deall darllen, ysgrifennu a/neu ddefnyddio mesurau prosesu gwybyddol.

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/pdfs/wsi_20171142_mi.pdf
[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents
[4] https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/
[5] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ein-dogfennau-rheoleiddiol/amodau/
[6] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

Mae'r CGC hefyd yn cyhoeddi dogfen flynyddol[7] sy'n nodi'r trefniadau safonol y gall canolfannau arholi ofyn amdanynt gan fyrddau a'r meini prawf perthnasol o ran cymhwyster a thystiolaeth. Gellir gofyn am drefniadau eraill hefyd.

Gall unrhyw ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau di-arholiad TGAU, Safon UG neu Safon Uwch, sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer trefniant mynediad, gael cymeradwyaeth amdano. Efallai bydd gofyn mwy nag un trefniant mynediad ar wahanol ymgeiswyr. Ar ôl ei ganiatáu, bydd trefniant yn gymwys am hyd at 26 mis, ond bydd ceisiadau sy'n seiliedig ar gyflyrau dros dro yn para un gyfres o arholiadau yn unig.

Trefniadau Mynediad Ar-lein

Trefniadau Mynediad Ar-lein yw system ganolog y CGC a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau i ofyn am drefniadau mynediad. Mae'n galluogi canolfannau i wneud un cais canolog am bob ymgeisydd yn hytrach nag ymgeisio i bob corff dyfarnu ar wahân. Nid oedd y gallu i gael gwybodaeth ystadegol fanwl yn rhan o'r cwmpas ar gyfer cynllun gwreiddiol y system. O ganlyniad, mae cyfyngiadau yn y data a gynhyrchir. Er enghraifft, mae'r ffigurau ar gyfer nifer y cymeradwyaethau a roddwyd mewn blwyddyn academaidd benodol ond gall trefniadau bara 26 mis, a bydd rhai ymgeiswyr sy'n gofyn am fwy nag un trefniant mynediad.

Mae'r dystiolaeth y mae cyrff dyfarnu'n ei mynnu i gefnogi cais am drefniant mynediad yn amrywio yn ôl y trefniant y gofynnwyd amdano a gofynion penodol yr ymgeisydd. Cyfeirir ceisiadau am rai categorïau o drefniadau, fel cynorthwywyr ymarferol a mwy na 25% o amser ychwanegol, at y corff dyfarnu perthnasol oherwydd byddai angen i ysgol neu goleg ddarparu gwybodaeth fanwl i gefnogi'r cais.

Dirprwyir y gwaith o gymeradwyo rhai trefniadau i ysgolion neu golegau lle bo cyrff dyfarnu'n barnu nad oes mantais i ymgeiswyr mewn perthynas â'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cael eu profi (er enghraifft, defnyddio prosesydd geiriau). O ganlyniad, mae amrywiaeth y trefniadau y mae'n rhaid i ysgolion neu golegau eu cofrestru gyda chyrff dyfarnu wedi amrywio dros amser.

Papurau cwestiwn wedi'u haddasu

Mae canolfannau'n gwneud ceisiadau am bapurau cwestiwn wedi'u haddasu cyn cyfres benodol o arholiadau. Paratoir papurau wedi'u haddasu yn unigol i ymgeiswyr y mae trefniadau mynediad eraill yn anaddas iddynt. Mae'r papurau hyn yn galluogi

[7] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

ymgeiswyr ag amrywiaeth o namau ar eu golwg neu anhwylderau deall iaith sylweddol i arddangos eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn 2018-19, y mathau o bapurau wedi'u haddasu y gellid gofyn amdanynt oedd:

- papurau wedi'u haddasu testun trwm pwynt 18
- papurau wedi'u haddasu testun trwm pwynt 24
- papurau Braille a diagramau cyffyrddadwy gyda labeli Braille
- iaith wedi'i haddasu
- papurau cwestiwn electronig nad ydynt yn rhyngweithiol
- diagramau cyffyrddol gyda labeli print
- trawsgrifiad o fideo neu brawf gwrando

Mae hefyd nifer fechan o geisiadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r prif gategorïau a gyhoeddir gan y CGC. Crisialir y rhain o dan fformatau eraill yn y data a'r tablau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn (gweler Tabl 2).

Mae'r categorïau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn cydredeg â'r categorïau a ddefnyddir gan arweiniad y CGC mewn Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.

Caiff ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu eu prosesu, a'r papurau eu cynhyrchu, gan y cyrff dyfarnu. Mae categorïau eraill o bapurau wedi'u haddasu – er enghraifft, papurau A3 wedi'u helaethu heb eu haddasu, sy'n cael eu cynhyrchu gan ganolfannau, gyda chaniatâd y corff dyfarnu, drwy agor y papur safonol awr cyn amser dechrau'r arholiad i'w gopïo a'i helaethu.

Ffynhonnell Data

Mae'r CGC yn anfon data i Cymwysterau Cymru ar drefniadau mynediad o'r Trefniadau Mynediad Ar-lein. Mae cyrff dyfarnu'n cyflwyno data ar nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd ar gyfer cyfres haf 2019. Mae'r trefniadau mynediad a'r papurau wedi'u haddasu ar gyfer canolfannau sydd yng Nghymru yn unig, ni waeth pa fath o ganolfan sydd dan sylw. Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â thueddiadau mewn trefniadau mynediad cymeradwy a nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd dros amser ac mae'n dadansoddi yn ôl math o drefniant/papur wedi'i addasu.

Cyfyngiadau data

Mae gwallau'n bosibl yn yr wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Ni all Cymwysterau Cymru sicrhau felly fod yr wybodaeth a geir yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn archwilio am faterion systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'i

herio neu ei gwestiynau, os oes angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn deall yn glir yr hyn sy'n ofynnol ganddynt a sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol
- Atgoffa'r holl ddarparwyr (os yw'n briodol) fod rhaid i bob data fod yn gwbl gywir, yn amod iddynt gael eu rheoleiddio
- Bod yn effro i newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu adroddiadau unigol dros amser gan yr un darparwr
- Mynd ati i herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data

Gellir oedi'r cyhoeddi os ystyrir nad yw'r ystadegau'n addas at ddiben.

Cesglir data ar adeg briodol pan fo'n rhesymol o gyflawn, sef 9 Awst 2019 ar gyfer data papurau wedi'u haddasu cyfres haf 2019 yn y datganiad hwn. Darparodd JQC ddata trefniadau mynediad a oedd yn ymdrin â blwyddyn academaidd gyfan 2018-19 ar 2 Hydref 2019.

Cymariaethau

Ers 2017-18, y cyrff dyfarnu yn hytrach nag Ofqual sy'n cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru. Dylid dehongli cymariaethau â data hanesyddol Ofqual gyda gofal.

Ymdriniaeth Ddaearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau am arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch am gyfres arholiadau haf 2019 ar gyfer canolfannau yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys TGAU, Safon UG a Safon Uwch a safwyd y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw data ar nifer y trefniadau mynediad fel arfer yn destun diwygio, er gallai datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae'r CGC a chyrff dyfarnu'n anfon i Cymwysterau Cymru ddata trefniadau mynediad a phapurau wedi'u haddasu ar gyfer yr holl gymwysterau a reoleiddir a ddosbarthir yn rhai TGAU, Safon UG neu Safon Uwch. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n anfon set gyflawn o ddata cyn pen y cyfnod casglu, i sicrhau bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

I warchod cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol interim Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau cofrestru eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, cânt eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 eu disodli â *. Mae hyn i sicrhau nad yw data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau yn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn creu'r cyfanswm gyda'i gilydd.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Ymhlith y defnyddwyr eraill mae grwpiau anabledd, swyddogion polisi llywodraeth, academyddion, ymchwilwyr a'r cyhoedd. Croesawn adborth gan ddefnyddwyr er mwyn dod i ddeall yn well pwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i sicrhau bod Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn addas at ddiben a'u bod yn bodloni safonau disgwyliedig.

Ystadegau a chyhoeddiadau perthynol

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn berthynol i hwn, gan gynnwys:

- Datganiad 'Canlyniadau arholiadau: Medi 2017 i Awst 2018'[8], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Ein datganiad 'Ystyriaeth Arbennig ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru: cyfres arholiadau haf 2018'[9]
- Datganiad Ofqual 'Access arrangements for GCSE and A Level: 2017 to 2018 academic year'[10]

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 6 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Cewch wybod am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru[11] a'n gwefan

[8] https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2017-i-awst-2018

[9] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/special-consideration-for-gcse-as-and-a-level-in-wales-summer-2018-exam-series/

[10] https://www.gov.uk/government/statistics/access-arrangements-for-gcse-as-and-a-level-2017-to-2018-academic-year

[11] https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?upcoming=true&lang=en&_ga=2.41370342.594228799.1573118138-346018017.1515611730

ni[12]. Mae cofrestr QiW[13] yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys am gyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Tachwedd 2020.

Adborth gan ddefnyddwyr

Croesawn unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn a gellir ei ddarparu drwy e-bost i ystadegau@cymwysteraucymru.org

© (2019) Rhoir caniatâd i atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at y ffynhonnell wreiddiol sef Cymwysterau Cymru.

[12] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/upcoming-publications/
[13] https://www.qiw.wales/?lang=cy